**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Cyf : EDC-09-00 (p1)**

**Dyddiad:** **11 Mai 2000**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru: Pwyllgorau Rhanbarthol**

## Diben

1. Mae'r papur amgaeëdig yn disgrifio swyddogaethau ac amcanion pwyllgorau rhanbarthol y Cyngor newydd, y gwaith y byddant yn ei wneud o fewn y Cyngor, a'r berthynas rhwng y pwyllgorau rhanbarthol a'r consortia cymunedol.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ddarllen y papur fframwaith amgaeëdig a fydd yn un o'r o'r sylfaeni ar gyfer cynllunio'r newid, ac i nodi fod y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed wedi ystyried y papur yn ei bwyllgor ar 10 Mai 2000.

## Ystyriaethau blaenorol

3. Yn ei adroddiad ar weithredu argymhellion ETAG, argymhellodd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed y dylai'r Cyngor sefydlu swyddfeydd rhanbarthol gyda staff rhanbarthol fyddai'n cael eu rheoli gan y Cyngor, a gyda'r Cyngor yn rheoli'r costau cynnal a chyllideb y rhaglenni. Argymhellodd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed hefyd y dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer paneli cynghori rhanbarthol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.

4. Mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau wedi ei ddrafftio yn y fath fodd fel ei fod caniatau hyblygrwydd ynghylch trefniadau rhanbarthol y Cyngor. At ddiben y ddeddfwriaeth bydd y pwyllgorau rhanbarthol yn rhan o haen ranbarthol y Cyngor. Mater i'r Cyngor fydd penderfynu ar ddyletswyddau ei bwyllgorau rhanbarthol, yn dilyn sêl bendith y Cynulliad.

5. Yn y cyfarfod llawn ar 1 Chwefror, nododd Mr Middlehurst y byddai gan y pwyllgorau rhanbarthol swyddogaeth allweddol o ran clustnodi'r angen am sgiliau yn eu rhanbarth, byddai ganddynt ddylanwad pwysig ar y ffordd y defnyddir y gyllideb hyfforddi yn y gwaith, ac y byddant mewn sefyllfa i ddylanwadu ar sut y defnyddir yr arian a glustnodir ar gyfer addysg ar ôl 16 oed.

6. Mae'r canllawiau cychwynnol ar gyfer consortia cymunedol yn cydnabod y dylai

swyddogaethau a gwaith y consortia cymunedol gael eu trafod â’r Cyngor, ei staff rhanbarthol a’i bwyllgorau rhanbarthol.

**Cydymffurfio**

7. Bydd y pwyllgorau rhanbarthol yn rhan annatod o’r Cyngor newydd. Dim ond os daw’r Mesur Dysgu a Sgiliau yn ddeddf y caiff y Cyngor ei sefydlu.

**Goblygiadau ariannol**

8. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn dilyn o’r papur fframwaith hwn.

**ATODIAD**

**CYNGOR CENEDLAETHOL ADDYSG A HYFFORDDIANT CYMRU –**

**PWYLLGORAU RHANBARTHOL**

**Cyflwyniad**

1. Mae’r Cynulliad wedi datgan yn glir ei fod yn disgwyl y bydd Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru (y Cyngor) yn sefydlu pwyllgorau rhanbarthol. Caiff aelodau’r pwyllgorau rhanbarthol eu penodi gan y Cyngor a byddant yn cynrychioli ystod o fuddiannau sy’n berthnasol i waith y Cyngor. Bydd yr aelodau yn bobl uchel eu parch sydd yn gallu siarad o brofiad ar amrediad o bynciau sy’n berthnasol i waith y Cyngor gan gynnwys darparu addysg a sgiliau, byd busnes, llywodraeth leol, yr undebau llafur a’r sector gwirfoddol, ond ni ddylai yr un maes unigol dra-arglwyddiaethu. Ni fydd aelodau’r pwyllgorau rhanbarthol yn cynrychioli buddiannau allanol.

**Y Fframwaith cyfreithiol**

2. Os daw yn ddeddf, bydd y Mesur Dysgu a Sgiliau yn galluogi Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru i sefydlu pwyllgorau rhanbarthol y bydd eu ffiniau yn cyd-fynd â ffiniau Pwyllgorau Rhanbarthol y Cynulliad a’r Fforymau Economaidd Rhanbarthol.

3. Bydd y pedwar pwyllgor rhanbarthol yn rhan annatod o’r Cyngor a bydd yn ddyletswydd arnynt i gynghori’r Cyngor ar faterion sy’n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yn eu

hardaloedd. Gan ddibynnu ar gydsyniad y Cynulliad, gall y Cyngor benderfynu y dylai ei bwyllgorau ysgwyddo unrhyw rai o ddyletswyddau neu bwerau'r Cyngor.

4. Bydd dim llai nag 8 aelod ym mhob un o'r pwyllgorau rhanbarthol, a byddant i gyd yn cael eu penodi gan y Cyngor, gan gynnwys y cadeirydd, a ddylai fod yn aelod o'r Cyngor hefyd. Bydd pob penodiad gan y Cyngor yn cael ei wneud ar sail teilyngdod ac yn unol ag egwyddorion Nolan.

**Amcan**

5. O fewn y fframwaith deddfwriaethol, amcan cyffredinol y pedwar pwyllgor rhanbarthol fydd cynorthwyo'r Cyngor i gynllunio addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed er mwyn cwrdd ag anghenion unigolion, cymunedau a chyflogwyr ym mhob un o'r rhanbarthau.

**Y Cyngor a'i bwyllgorau rhanbarthol**

6. Bydd y Cyngor yn derbyn cyfarwyddyd gan y Cynulliad ar y polisïau a'r blaenoriaethau y bydd yn eu dilyn. Bydd disgwyl i'r Cyngor baratoi adroddiad blynyddol ar ei gynlluniau busnes a chorfforaethol a fydd yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cynulliad. Bydd y pwyllgorau rhanbarthol yn cyfrannu at y cynlluniau busnes a chorfforaethol drwy lunio datganiadau rhanbarthol ar eu hanghenion a'u blaenoriaethau a bydd y rhain yn cael eu hystyried gan y cyngor. Wrth lunio datganiadau o'r fath, bydd pob pwyllgor rhanbarthol yn ymgynghori â'r Consortiau Addysg a Hyfforddiant Cymunedol, Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad, y Fforwm Economaidd Rhanbarthol, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr o fyd busnes a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol yn lleol. Unwaith y bydd Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru yn cytuno arnynt, bydd datganiadau angen rhanbarthol yn un o'r mannau cychwyn ar gyfer datblygu cynlluniau darparu lleol fydd yn cael eu paratoi gan y Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol.

7. Bydd pwyllgorau rhanbarthol y Cyngor yn cael eu cefnogi gan staff y cyngor a leolir yn swyddfeydd rhanbarthol y Cyngor. Y Cyngor fydd yn penderfynu ar drefniadaeth ei swyddfeydd rhanbarthol.

**Swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarthol**

8. Ar y dechrau, swyddogaeth pwyllgorau rhanbarthol y Cyngor fydd:

- cynghori'r Cyngor ynghylch yr angen am addysg a sgiliau galwedigaethol ac analwedigaethol ar draws y rhanbarth, y blaenoriaethau o ran yr anghenion hyn a'r ffyrdd mwyaf addas o'u diwallu;

- llunio datganiadau rhanbarthol blynyddol ynghylch anghenion a blaenoriaethau, gan

ganolbwyntio ar nifer o ffactorau a nodir gan y Cyngor gan gynnwys, er enghraifft:

- asesiad o anghenion unigolion, cymunedau a chyflogwyr ar draws y rhanbarth am addysg a hyfforddiant, gan ystyried perfformiad y darparwyr wrth gyrraedd nodau y cynlluniwyd ar eu cyfer ym meysydd dysgu a sgiliau, a'r galw presennol, a'r amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol am addysg a sgiliau;

- cwmpas a lefel y ddarpariaeth sydd eu hangen er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion neu fyfyrwyr, gan gymryd yr amrywiaethau yn y ddarpariaeth ar draws y rhanbarth i ystyriaeth;

- sut i sicrhau'r gwerth gorau o fuddsoddiadau'r Cyngor ar draws y rhanbarth;

- y mesurau sydd angen eu rhoi yn eu lle er mwyn cefnogi a hybu'r Consortia Addysg a Hyfforddiant Lleol wrth ddatblygu cynlluniau lleol ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant;

- y cyfraniadau rhanbarthol allai gael eu gwneud tuag at gyrraedd y targedau cenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed, law yn llaw â gwaith y Consortia;

- y mesurau sydd angen eu rhoi yn eu lle er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chynyddu dewis a lefelau cyfranogi;

- y mesurau sydd angen eu rhoi yn eu lle er mwyn cynyddu cynhwysiant cymdeithasol a hwyluso mynediad a hybu cyfleoedd cyfartal, gan gymryd anghenion ardaloedd gwledig ac ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd i ystyriaeth;

- y mesurau sydd angen eu rhoi yn eu lle er mwyn diwallu anghenion disgyblion, myfyrwyr a gweithwyr dan hyfforddiant sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau;

- y mesurau sydd angen eu rhoi yn eu lle er mwyn hyrwyddo a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;

- y mesurau sydd angen eu rhoi yn eu lle er mwyn lleihau gwastraff a dyblygu, a chael gwared ar gystadleuaeth ddiangen;

9. Dim ond yn achlysurol y gall y Cyngor newid swyddogaethau'r pwyllgorau rhanbarth, a hynny ar ôl derbyn sêl bendith y Cynulliad.

**Y pwyllgorau rhanbarth a'r Consortia Cymunedol**

10 Bydd y pwyllgorau rhanbarthol yn cael eu cefnogi gan swyddfeydd rhanbarthol y Cyngor, a disgwylir iddynt gydweithio â'r Consortia Cymunedol yn eu rhanbarthau a chadw mewn cysylltiad agos â hwy. Bydd hyn yn cynnwys cynnig cymorth ysgrifennyddol i'r Consortia Cymunedol er mwyn ei gwneud yn haws i ddatblygu trefniadau partneriaeth ar lefel leol ac annog aelodau'r Consortia i gynllunio ar gyfer ychwanegu at werth y ddarpariaeth leol waelodol. Yn ychwanegol, pan fo galw, dylai pob ysgrifenyddiaeth allu cynorthwyo'r Consortia i chwilio am opsiynau ac asesu cynigion, arolygu perfformiad raglenni a gwerthuso canlyniadau. Wrth baratoi eu cynlluniau, dylai Consortia Cymunedol gymryd i ystyriaeth ganllawiau cynllunio'r Cyngor, ar ôl derbyn cyngor pwyllgor rhanbarthol perthnasol y Cyngor.

11. Ni fydd gan bwyllgorau rhanbarthol y Cyngor unrhyw awdurdod dros y Consortia Cymunedol, ond pan fyddant yn llunio eu datganiadau rhanbarthol bydd angen iddynt ymgynghori â'r Consortia ac ystyried y mesurau fyddai eu hangen i gefnogi'r Consortia wrth iddynt ddatblygu cynlluniau lleol ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel. Yn arbennig, bydd y pwyllgorau yn ymwneud â mesurau fydd yn:

- cynnig argymhellion gwreiddiol a fydd yn lleihau dyblygu, cael gwared ar gystadleuaeth ddiangen ac yn cynyddu dewis;
- integreiddio'r dysgu anffurfiol a'r gwaith maes a ddarperir gan y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol gan ddilyn meini prawf llym;
- cymryd i ystyriaeth y wybodaeth a gynhyrchir gan Sgiliau Dyfodol Cymru wrth benderfynu ar y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant;
- targedu'r cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ymateb i'r galw;
- adnabod anghenion ardaloedd gwledig ac ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd;
- manteisio ar dechnolegau newydd i'r eithaf er mwyn cynnig darpariaeth arloesol a mynd i'r afael â phroblemau ymarferol y ddarpariaeth, pan gyfyd yr angen;
- ymateb i'r newidiadau yng nghynllun y cwricwlwm fydd yn golygu amrediad ehangach o bynciau a mwy o bwyslais ar anghenion y disgyblion, y myfyrwyr a'r cyflogwyr;
- darparu ymateb realistig ac ymarferol oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael.

**Y Cyfnod Cyfamserol**

12. Dymuniad y Cynulliad yw y bydd y Cyngor a'r Consortia Cymunedol yn dechrau ar eu gwaith cyn gynted ag y bo modd, a'u bod yn gweithredu'n llawn o ddechrau Ebrill 2001. Bydd

hyn yn cynnwys sicrhau fod y cymorth fydd ar gael i'r Consortia yn datblygu, fel bod y Consortia yn gallu cyfrannu'n effeithiol at y broses gynllunio yn ystod y flwyddyn nesaf. Yn ystod y cyfnod cyfamserol cyn i'r Cyngor ysgwyddo ei holl gyfrifoldebau, bydd y Cynghorau Menter a Hyfforddiant yn gallu darparu gwasanaethau ysgrifenyddol i'r Consortia, gan ddilyn y canllawiau cychwynnol a gyhoeddwyd ar 18 Ebrill 2000 yn dwyn y teitl Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol – Fframwaith Canllawiau Cychwynnol.

Tim Gweithredu ETAP

Yr Adran Addysg a Hyfforddiant